CEREDIGION

# Polisi Chwythu'r Chwiban

Awdur: Swyddog Monitro/ Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Pobl a ThrefniadaethAdnoddau Dynol
Terfynol: 07/04/16
Cytunwyd gan yr Undebau Llafur 14/3/16
Cymeradwywyd gan y Cabinet: 17/05/16
Dyddiad a Gyhoeddwyd: 17/05/16
Diwygiwyd gan y Swyddog Monitro: 23/11/2017
Ail-ddiwygiwyd gan y Swyddog Monitro: 16/05/2018
Cymeradwywyd gan y Cabinet: 19/06/2018

Diwygiwyd 14/1114/02/232

Cymeradwywyd gan y Cabinet: x/x/20232

## RHAGYMADRODD

Yn aml, y cyflogeion fydd y bobl gyntaf i sylweddoli y gall fod rhywbeth difrifol o'i le ar y ffordd y mae gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cyflawni. Serch hynny, mae'n bosibl na fyddant yn gallu mynegi'u pryderon oherwydd, o wneud hynny, byddant yn teimlo eu bod yn anffyddlon i'w cydweithwyr neu i'r Cyngor. O ddweud eu dweud, gall fod ofn arnynt y bydd rhywun yn aflonyddu arnynt neu'n eu trin yn annheg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall fod yn haws iddynt anwybyddu'u pryderon, yn hytrach na rhoi gwybod i rywun am yr hyn all fod yn ddim mwy na chamymddygiad amheus.

**Formatted:** Welsh

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein busnes yn onest a chydag uniondeb, ac rydym yn disgwyl i'r holl staff arddel safonau uchel. Serch hynny, mae perygl y gall rhywbeth fynd o'i le mewn unrhyw sefydliad o bryd i'w gilydd, neu berygl y gall ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol fod yn digwydd yno'n ddiarwybod. Mae'n hanfodol meithrin diwylliant agored ac atebol i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi neu i fynd i'r afael â nhw pan fyddant yn codi.

**Formatted:** Welsh

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran uniondeb, atebolrwydd a bod yn agored. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn annog cyflogeion ac eraill a chanddynt bryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor i gysylltu â ni ac i leisio'r pryderon hynny. Rydym yn sylweddoli y bydd yn rhaid trin a thrafod rhai achosion yn gyfrinachol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn egluro bod modd i'r staff wneud hynny heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt.

**Formatted:** Welsh

## NOD A CHWMPAS Y POLISI HWN

**Formatted:** French (France)

Nod y polisi hwn yw:

**Formatted:** French (France)

- eich annog i roi gwybod cyn gynted â phosibl os ydych yn amau achos o ddrwgweithredu gan wybod y byddwn yn ymdrin â'ch pryderon o ddifrif ac yn ymchwilio iddynt fel y bo'n briodol, a chan wybod y byddwn yn parchu eich cyfrinachedd.

**Formatted:** French (France)

- darparu canllawiau a dulliau i sicrhau bod modd i chi fynegi pryderon a chael adborth am unrhyw gamau a gymerwyd

**Formatted:** French (France)

- caniatáu i chi gymryd camau pellach i ymdrin â'r mater os nad ydych yn fodlon ag ymateb y Cyngor

**Formatted:** French (France)

- rhoi sicrwydd i chi y dylai fod modd i chi fynegi pryderon dilys heb ofni y bydd rhywun yn dial arnoch neu'n eich trin yn annheg oherwydd i chi chwythu'r chwiban, hyd yn oed os daw i'r amlwg eu bod wedi camgymryd

**Formatted:** French (France)

Mae gweithdrefnau ar waith i alluogi chi i wneud cwyn sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth neu'ch contract cyflogaeth. Bwriedir i'r polisi chwythu'r chwiban hwn drin a thrafod pryderon sydd tu hwnt i gwmpas gweithdrefnau eraill.

**Formatted:** Welsh

Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth unrhyw gyflogai a gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

Formatted: Welsh

## I BWY Y MAE'R POLISI HWN YN BERTHNASOL?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio ar bob lefel yn y Cyngor, gan gynnwys uwch reolwyr, swyddogion, cyfarwyddwyr, cyflogeion, ymgynghorwyr, contractwyr, hyfforddeion, gweithwyr cartref, gweithwyr rhan-amser, gweithwyr tymor penodol, gweithwyr dros dro a gweithwyr asiantaeth, yn ogystal â gwirfoddolwyr. (Cyfeirir atynt ar y cyd fel **staff** yn y polisi hwn.)

## BETH YW CHWYTHU'R CHWIBAN?

Datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â drwgweithredu amheus neu beryglon yn y gwaith yw **chwythu'r chwiban**. Gall gynnwys:

(a) gweithgarwch troseddol;

(b) camweinyddu cyfiawnder;

(c) perygl iechyd a diogelwch;

(d) niwed i'r amgylchedd;

(e) methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol neu ofynion rheoleiddiol;

(f) llwgrwobrwyo;

(g) twyll neu gamreolaeth sy'n ymwneud ag arian / caffael;

(h) esgeulustod;

(i) torri polisïau a gweithdrefnau mewnol;

(j) ymddygiad sy'n debygol o niweidio ein henw da;

(k) datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd;

(l) ymddygiad amhriodol;

(m) ymddygiad a gweithredoedd sy'n syrthio islaw safonau neu arferion sydd wedi ennill eu plwyf

(n) gweithredoedd sy'n mynd yn groes i reolau sefydlog neu bolisïau'r Cyngor;

(o) caethwasiaeth/masnachu pobl

(p) p~~P~~ryderon diogelu

(q~~p~~) celu unrhyw un o'r materion uchod yn fwriadol.

Dywedir bod unigolyn sy'n mynegi pryder dilys am unrhyw un o'r materion uchod yn **chwythwr chwiban**. Os oes gennych chi bryderon dilys sy'n ymwneud â drwgweithredu amheus neu berygl sy'n effeithio ar unrhyw un o'n gweithgareddau (**pryder chwythu'r chwiban**), dylech roi gwybod am y pryderon hynny o dan y polisi hwn.

Ni ddylech ddefnyddio'r polisi hwn ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'ch sefyllfa bersonol, fel y ffordd y cawsoch eich trin yn y gwaith. Mewn achosion o'r fath, dylech ddefnyddio'r Drefn Gwyno neu'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu yn y Gwaith.

Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio wedi dweud:
lle bo'n briodol, dylid ystyried y polisi hwn yn gyntaf wrth

- godi pryder mewn perthynas â defnydd yr Awdurdod o bwerau ymchwilio, ac
- unrhyw ddatgeliadau ynghylch unrhyw faterion sy'n dod o fewn arolygiaeth Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

**LLWGRWOBRWYO**

Mae atal llwgrwobrwyo wedi'i gynnwys mewn polisi a gweithdrefnau ar wahân.

Mae'n ofynnol i bob cyflogai roi gwybod pan fyddant yn amau bod pobl neu gwmnïau yn cynnig neu'n derbyn llwgrwobrau. Gall awdurdod lleol gael ei erlyn os yw cyflogai, asiant neu rywun â chysylltiad yn llwgrwobrwyo unigolyn arall, gyda'r bwriad o sicrhau mantais i'r awdurdod. Mae llygredd, yn ddi-os, yn arwain at golled ariannol sylweddol o ran y pwrs cyhoeddus ac mae unigolion llwgr yn medru treiddio i unrhyw lefel o'r sefydliad heb fod neb yn sylwi arnynt.

Os nad ydych chi'n siŵr a yw rhywbeth yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, dylech ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu). Mae manylion cyswllt y Swyddog Monitro i'w gweld ar dudalen 6 y polisi hwn.

**Diogelu**

Efallai rhoddir gwybod am bryderon diogelu i ddechrau fel pryderon chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau priodol, ceir cyfeirio'r rhain at weithdrefn Diogelu neu Strategaeth Pryderon Proffesiynol y Cyngor.

Cynghorir gweithwyr i gyfeirio at y 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl' i gael mwy o wybodaeth am roi gwybod am bryderon diogelu.

**ATAL CAETHWASIAETH**

Mae atal caethwasiaeth wedi'i gynnwys mewn polisi a gweithdrefnau ar wahân.

**RHAGOFALON**

Rhaid i staff sy'n delio â chwynion chwythu'r chwiban barchu cyfrinachedd y broses. Nid oes angen i'r gair 'Cyfrinachol' a/neu'r geiriau 'Chwythu'r Chwiban' ymddangos ar y dogfennau sy'n dod i law er mwyn iddynt gael eu trin felly. Ni ddylid datgelu dogfennau sy'n ymwneud â chwynion oni bai bod y Swyddog Monitro yn rhoi caniatâd cyn hynny.

**Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998**

Daeth y Ddeddf uchod i rym ar Orffennaf $2^{il}$ 1999 ac mae'n eich diogelu rhag i chi gael eich diswyddo'n annheg neu'ch trin yn annheg oherwydd i chi roi gwybod am ddrwgweithredu yn y gweithle. Fe'i ~~Yn ddiweddar, cafodd ei~~ diwygiwyd~~o~~ gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

**Aflonyddu neu Erledigaeth**

Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn anodd i unigolion benderfynu rhoi gwybod am eu pryderon, nid lleiaf oherwydd y gall yr unigolion hynny ofni y bydd y rheini sy'n drwgweithredu'n dial arnynt. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw aflonyddu nac erledigaeth a bydd yn mynd ati i ddiogelu unrhyw unigolion sy'n mynegi pryderon.

**CYFRINACHEDD**

Rydym yn mawr obeithio y bydd aelodau staff yn teimlo bod modd iddynt fynegi'u pryderon yn agored o dan y polisi hwn. Serch hynny, os hoffech fynegi'ch pryderon yn gyfrinachol, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau na ddaw neb i wybod pwy ydych chi. Os bydd angen i unrhyw un sy'n ymchwilio i'r mater wybod pwy ydych chi, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

Cofiwch y gall y broses ymchwilio ddatgelu o ble mae'r wybodaeth wedi dod a gall fod angen i chi wneud datganiad fel rhan o'r dystiolaeth. Os oes angen datgelu pwy ydych chi, bydd y Cyngor yn trefnu i'ch cefnogi drwy gydol y broses.

Efallai y bydd amgylchiadau lle gall gwybodaeth a ddatgelir yn ymwneud â materion diogelu gael ei throsglwyddo i Swyddogion priodol (ee Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) neu awdurdodau rheoleiddio.

**Honiadau dienw**

O dan y polisi hwn, anogir y staff i wneud honiadau ar goedd. Mae pryderon a fynegir yn ddienw yn llawer llai grymus, ond bydd Swyddog Monitro'r Cyngor (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) yn ystyried honiadau dienw.

Gall fod yn anoddach neu'n amhosibl ymchwilio'n briodol iddynt os nad oes modd i ni gael mwy o wybodaeth gennych. Mae hefyd yn anoddach pennu a yw'r honiadau'n gredadwy.

Os yw'r sawl sy'n chwythu'r chwiban yn pryderu y bydd rhywun yn dial arno os daw i wybod pwy sydd wedi chwythu'r chwiban, dylai siarad â'r Swyddog Monitro neu un o'r swyddogion cyswllt eraill a restrir isod. Bydd modd cymryd camau i sicrhau na ddaw neb i wybod pwy ydych chi.

~~Os oes gennych unrhyw amheuon, gallwch ofyn am gyngor gan yr elusen chwythu'r chwiban annibynnol, Public Concern at Work. Mae ganddi linell gymorth gyfrinachol. Dyma fanylion cyswllt yr elusen:~~

~~CAN Mezzanine~~
~~7 - 14 Great Dover Street~~
~~Llundain SE1 4YR~~

~~**Ffôn**~~
~~Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban: 020 7404 6609~~
~~Ymholiadau Cyffredinol: 020 3117 2520~~

~~**Ffacs**~~
~~020 7403 8823~~

~~**E-bost**~~
~~Llinell Gymorth y Deyrnas Unedig: whistle@pcaw.org.uk~~
~~Ymholiadau'r Cyfryngau: press@pcaw.org.uk~~
~~Gwasanaethau'r Deyrnas Unedig: services@pcaw.org.uk~~

**Swyddog Monitro**

Pan fydd y Swyddog Monitro'n ystyried yr honiad, bydd yn rhoi sylw i'r materion a ganlyn:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- pa mor gredadwy yw'r pryderon;
- pa mor debygol yw hi y bydd modd cadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli.

Os bydd y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) yn penderfynu peidio â mynd i'r afael â honiad dienw, bydd yn cofnodi'r rheswm dros ei benderfyniad.

**SUT I FYNEGI PRYDER**

- ~~Yn gyntaf, d~~Dylech roi gwybod, fel arfer, i'ch rheolwr llinell uniongyrchol, neu'i reolwr ef, am eich pryderon. Gall fod modd iddynt gytuno ar ffordd o ddatrys eich pryderon yn gyflym ac yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a sensitif yw'r materion o dan sylw a phwy y tybir eu bod yn rhan o'r camymddygiad.

Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh

- Os nad ydych am roi gwybod i'ch rheolwr llinell, neu'i reolwr, am eich pryderon, neu os yw'r mater yn fwy difrifol, fe'ch anogir i gysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor.

Formatted: Welsh

- Fel arall, os ydych yn pryderu am amhriodoldeb ariannol, gallech roi gwybod i'r ~~(~~Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael~~)~~ neu'r Prif Archwilydd Mewnol (Rheolwr Corfforaethol-Archwilio Mewnol) am eich pryderon.

Formatted: Welsh

- Dylech nodi cefndir a hanes y pryderon, gan roi enwau, dyddiadau a lleoliadau lle bo modd, a dylech egluro pam eich bod yn pryderu'n benodol am y sefyllfa hon.

Formatted: Welsh

- Os nad ydych yn teimlo bod modd i chi gofnodi'ch pryderon yn ysgrifenedig, gallwch ffonio'r swyddog priodol neu drefnu i gwrdd ag ef.

Formatted: Welsh

- Po gynharaf y byddwch yn mynegi'ch pryderon, po hawsaf y bydd i weithredu.

Formatted: Welsh

- Ceir~~Dylech~~ rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro am unrhyw gŵyn ddifrifol, sef honiad o gamymddygiad neu amhriodoldeb ariannol.

- Gallwch gael cyngor ac arweiniad ynghylch sut i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder oddi wrth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) | Swyddog Adran 151/~~(~~Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael) ~~Swyddog Adran 151~~ | Prif Archwilydd Mewnol, (Rheolwr Corfforaethol-Archwilio Mewnol) | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth |
| Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA. | Canolfan Rheidol Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE | Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE | Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE |
| Rhif Ffôn (01545) 572120 | Rhif Ffôn (01970 633121~~10~~) | Rhif Ffôn (01970) 633323~~0~~ | Rhif Ffôn (01545) 572019~~1~~ |

Os oes angen cyfarfod, bydd hwn yn cael ei~~Byddwn yn t~~drefnu ~~cyfarfod gyda chi~~ cyn gynted â phosib i drafod eich pryder. Gall cyfarfod fod wyneb yn wyneb neu o bell.

Formatted: Welsh

Gallwch ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb gyda chi i unrhyw gyfarfod a gynhelir o dan y polisi hwn. Rhaid i'r sawl sy'n dod gyda chi i unrhyw gyfarfod barchu cyfrinachedd y wybodaeth a ddatgelwyd gennych ac unrhyw ymchwiliad sy'n deillio ohono.

Formatted: Welsh

Byddwn yn ysgrifennu crynodeb o'ch pryderon ac yn rhoi copi i chi ar ôl y cyfarfod.

Byddwn hefyd yn ceisio rhoi syniad i chi o'r ffordd y bwriedir ymdrin â'r mater.

**DATGELU GWYBODAETH TU ALLAN I'R CYNGOR**

Bwriedir i'r polisi hwn ddarparu dull mewnol o roi gwybod am achosion o ddrwgweithredu yn y gweithle, ymchwilio iddynt a'u datrys. Gan mwyaf, ni ddylai fod angen i chi roi gwybod i unrhyw un tu allan i'r Cyngor.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'r gyfraith yn cydnabod y gall fod yn briodol i chi roi gwybod i gorff allanol, fel rheoleiddiwr, am eich pryderon. Fe'ch anogir yn gryf i ofyn am gyngor cyn rhoi gwybod i unrhyw un tu allan i'r Cyngor am eich pryderon.
Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch ofyn am gyngor gan y~~Mae gan y~~r elusen chwythu'r chwiban annibynnol, Protect (Public Concern at Work gynt), sy'n gweithredu llinell gymorth gyfrinachol. Mae gan~~ddi hefyd~~ Protect restr o reoleiddwyr penodedig y gellir rhoi gwybod iddynt am fathau penodol o bryderon.

Eu manylion cyswllt yw:

The Green House
244-254 Cambridge Heath Road
Llundain E2 9DA

~~Ymholiadau cyffredinol~~Ffôn: 020 3117 2520
Ffurflen gysylltu:

https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line

~~**E-bost**~~
~~Llinell gymorth y DU: whistle@pcaw.org.uk~~
Ymholiadau gan y cyfryngau: ~~press@pcaw.org.uk~~press@protect-advice.org.uk
~~Gwasanaethau'r DU: services@pcaw.org.uk~~

**Personau a chyrff penodedig**
Mae rhestr o bersonau a chyrff penodedig ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/blowing-the-whistle-list-of-prescribed-people-and-bodies--2/whistleblowing-list-of-prescribed-people-and-bodies
~~https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496899/BIS -16-79-blowing-the-whistle-to-a-prescribed-person.pdf~~

Os yw'r materion yn ymwneud ag awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredd o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, y cyswllt perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru:
Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried, ond nid oes rheidrwydd arno i ymchwilio, i bob datgeliad a gaiff.

~~Y cyswllt perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn:~~

**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** French (France)
**Formatted:** French (France)
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** German (Germany)
**Formatted:** Font: Bold

**Archwilydd Cyffredinol Cymru** **(Archwilio Cymru):**
Swyddog PIDA
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: ~~01244 525980~~029 20 320 522
E-bost: chwythu'r-chwiban@archwilio.cymru~~wao.gov.uk~~

Gwefan: www.audit.wales/cy/chwythur-chwiban
~~www.wao.gov.uk/whistleblowers-hotline~~

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

**Safecall:**
(Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban)
(Darparwr Gwasanaeth Chwythu'r Chwiban Byd-eang)

Safecall Llundain
8fed Llawr
100 Bishopsgate
Llundain
EC2N 4AG

Safecall Sunderland
RTC Loftus house
Colima avenue
Sunderland
SR5 3XB
0191 516 7720

**~~Hefyd~~Gwefan Llywodraeth y DU~~:~~**
www.gov.uk/whistleblowing

Fel rheol, mae pryderon chwythu'r chwiban yn ymwneud ag ymddygiad ein staff, ond weithiau gallant fod yn gysylltiedig â gweithredoedd trydydd parti, fel cyflenwr, contractwr, ymgynghorwr neu ddarparwr gwasanaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd y gyfraith yn eich diogelu os byddwch yn codi'r mater gyda'r trydydd parti'n uniongyrchol. Serch hynny, fe'ch anogir i fynegi pryderon o'r fath yn fewnol i gychwyn. Dylech gysylltu â'ch rheolwr llinell neu un o'r unigolion eraill a enwir uchod i gael cyngor.

**SUT Y BYDD Y CYNGOR YN YMATEB**

- Bydd y camau a gymerir gan y Cyngor yn dibynnu ar natur y pryder. Yn gyffredinol, gall y Cyngor gymryd y camau a ganlyn:

**Formatted:** Welsh
**Formatted:** German (Germany)
**Field Code Changed**
**Field Code Changed**
**Formatted:** German (Germany)
**Formatted:** German (Germany)
**Formatted:** German (Germany)
**Formatted:** Word underline, German (Germany)
**Formatted:** German (Germany)
**Field Code Changed**
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** French (France)
**Formatted:** French (France)

- o gall y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu), yr uwch reolwyr, y gwasanaeth archwilio mewnol neu'r tîm ymchwilio a gwrth-dwyll ymchwilio i'r pryder, drwy'r broses ddisgyblu neu ymchwiliad allanol.
- o gellir cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Aarchwilio'r Cyngor
- o gellir cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor
- o gellir cyfeirio'r mater at yr Heddlu
- o gellir cyfeirio'r mater at Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilwyr aAllanol eraill a benodir
- o gellir cyfeirio'r mater at Archwilio Cymru, AGC, Estyn neu reoleiddiwr arall
- o gall y pryder fod yn destun ymchwiliad annibynnol

- I ddiogelu unigolion a'r Cyngor, gwneir ymholiadau cychwynnol i benderfynu a yw'n briodol ymchwilio i'r mater ac, os felly, sut y dylid ymchwilio iddo. Fel arfer, caiff pryderon neu honiadau sy'n berthnasol i weithdrefnau penodol (er enghraifft, materion amddiffyn plant neu faterion gwahaniaethu) eu cyfeirio i'w hystyried o dan y gweithdrefnau hynny.

- Pan fyddwch wedi mynegi pryderon, byddwn yn cyflawni asesiad cychwynnol i bennu hyd a lled unrhyw ymchwiliad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ein hasesiad. Gall fod gofyn i chi ddod i gyfarfodydd ychwanegol i roi mwy o wybodaeth.

- Mewn rhai achosion, gallem benodi ymchwilydd neu dîm o ymchwilwyr, gan gynnwys staff a chanddynt brofiad perthnasol o gyflawni ymchwiliadau neu wybodaeth arbenigol am y testun. Gall yr ymchwilydd/ymchwilwyr argymell newidiadau i'n galluogi i leihau'r risg o ddrwgweithredu yn y dyfodol.

- Dylai staff sy'n derbyn cwynion yn uniongyrchol gyfeirio'r cwynion hynny at y Swyddog Monitro a / neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, y Prif Archwilydd Mewnol a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth.

- Mae'n well codi unrhyw bryderon yn ysgrifenedig gan, yn ddelfrydol, nodi'r gair 'Cyfrinachol' a/neu'r geiriau 'Chwythu'r Chwiban' arnynt.

- Rhaid i'r staff sy'n rhan o'r broses ystyried a oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid gofyn am gyngor oddi wrth y Swyddog Monitro.

- Gellir datrys rhai pryderon drwy gytuno ar gamau gweithredu, heb fod angen cynnal ymchwiliad.

- Ar ôl i chi fynegi'ch pryderon, byddwch yn cael:

1) Cyn pen 10 diwrnod gwaith, cydnabyddiaeth gan y Swyddog Monitro eich bod wedi codi'r mater.

Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh
Formatted: Welsh